

TAG UG/SAFON UWCH



TAG UG/SAFON UWCH CBAC
ASTUDIAETHAU
CREFYDDOL

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

GEIRFA HINDWAETH

Addysgu o 2016



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

ASTUDIO HINDŴAETH : GEIRFA	
TERM	DIFFINIAD
Advaita Vedanta	Vedanta nad yw'n ddeuol sy'n addysgu bod atman a Brahman yn union yr un fath.
adhyasa	Arosod – adnabyddiaeth ffug o'r hyn sy'n wir a'r hyn nad yw'n wir
arthashastras	Un o amcanion pwysig ac angenrheidiol llywodraeth sy'n cynnwys materion cymdeithasol, cyfreithiol, economaidd a byd-eang.
Aryabhatta	Mathemategydd/seryddwr o India.
bhakti	Ymroddiad. Yn y traddodiadau bhakti, credir mai caru Duw yw'r llwybr i moksha (rhyddhad).
bhakti marga	Ffordd o garu ymroddiad, ffordd o fyw'r rheini sy'n ymroi i ymwybyddiaeth o'r dwyfol drwy un duw penodol.
Bhave, Vinoba	Eiriolwr didreisedd a hawliau dynol o India. Yn fwyaf adnabyddus am y Mudiad Bhoodan.
brahmacharya	Ashrama dan hyfforddiant – nodir gan anweddogaeth ac ymroddiad i'ch guru.
Cenhadaeth Ramakrishna	Mudiad gwirfoddol a sefydlwyd gan Vivekananda. Mae'n ymwneud â nifer o feysydd megis gofal iechyd, cymorth mewn trychineb a rheoli cefn gwlad ac mae ei waith yn seiliedig ar egwyddorion karma yoga.
Chandogya Upanishadcharaka	Un o'r Upanishads mwyaf. Sylfaen ysgol Hindŵaeth Vedanta.
Charaka	Charaka – un o frodorion Kashmir a gyfrannodd at Ayurveda, sef system feddygaeth a ddatblygwyd yn India'r Henfyd. Caiff ei ystyried fel 'tad meddygaeth'.
Crawford, S. Cromwell	Athro Crefydd, Prifysgol Hawaii sy'n gysylltiedig â biofoeseg Hindŵaidd.
Gandhi, Indira	Y fenyw gyntaf i fod yn brif weinidog India.
Gandhi, Mahatma	Unigolyn amlwg y dadeni Hindŵaidd. Arweinydd y frwydr dros annibyniaeth yn India.
Y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymwybyddiaeth Krishna (ISKCON)	Mudiad Vaishnava Hindŵaidd, a sefydlwyd yn UDA yn 1965 gan A.C. Bhaktivedanta Swami Prabhupada. Mae'n dilyn traddodiad Caitanya ac yn anelu at gyflwr ymwybyddiaeth barhaol o Krishna. Mae dawnsio a llafarganu'r maha-mantra yn nodweddion pwysig o addoli. Mae'n croesawu unigolion sydd heb fod o dras Indiaidd sy'n barod i ymrwymo i'w reolau a'i reoliadau caeth.
ishdateva	Duwdod wedi'i ddewis.
jnana	Gwybodaeth am Brahman drwy brofiadau.
Katha Upanishad	Un o'r prif Upanishads a'r un a gaiff ei astudio fwyaf.
Kishwar, Madhu	Academydd ac awdur o India.
Maitri Upanishad	Testun hynafol pwysig sy'n cyfeirio at elfennau o Samkya, yoga ac ashrama.

neo-Vedanta	Dehongliadau modern o Hindŵaeth a ddatblygwyd yn y 19 ^{eg} ganrif.
Nirguna Brahman	Brahman heb ffurf na rhinweddau.
Patanjali ac ashtanga yoga	Sutras yoga a luniwyd gan Patanjali tua 400 OCC. Ystyrir mai dyma un o sylfeini athroniaeth yoga clasurol Hindŵaidd.
purusharthas	Pedwar nod bywyd dynol – dharma, artha, kama, moksha.
Ram Mohan Roy	Sylfaenydd mudiad Brahmo Sabha yn 1828 ac unigolyn dylanwadol yn ystod dadeni Bengal.
Ramakrishna	Cyfriniwr a bwysleisiodd y bhakti a'r syniad bod pob crefydd yn un.
Samkhya yoga	Dull Patanjali o gyfosod athroniaeth ac arfer Samkhya yoga.
sarvodaya	Yn golygu 'dyrchafiad hollgyffredinol' neu 'cynnydd pawb'.
Shankara	Prif feddyliwr Advaita Vedanta.
shaiva bhakti	Ymroddiad cariadus tuag at Shiva.
Shvetashvatara Upanishad	Prif Upanishad sy'n bwysig iawn mewn Shaiviaeth ac ysgolion Hindŵaeth Yoga a Vedanta.
Swami Prabhupada	Sefydlwyd ISKCON gan A.C. Bhaktivedanta Swami Prabhupada yn 1965.
Swasti Bhattacharya	Academydd o India – Athro Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Buena Vista.
tri guna	Sattva, rajas a tamas; – tair elfen sy'n cyfuno i greu prakriti – purdeb, angerdd, syrthni.
tri math o Brahman	Ishvara, prakriti ac atman; – personol, empirig, microcosmig.
Upanishads	Yr adran o'r Vedas sy'n ymdrin â'r egwyddorion athronyddol sy'n sail i'r arferion a ddogfennir yn y Vedas. Mae'r Upanishads mwyaf adnabyddus, er enghraifft y Chandogya neu'r Brihadaranyaka, yn cyfeirio at undod cynhenid atman a Brahman, ac yn portreadu athroniaeth fonistig.
Vaishnava bhakti	Ymroddiad tuag at Vishnu neu ei ymgnawdoliadau.